OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 65

# Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Heidiau o Dyrcwn (Cymru) 2010

**Cofnodion symudiadau**

**6.** Pan fo adar yn cael eu symud i ddaliad neu oddi arno rhaid i'r meddiannydd gofnodi ar gyfer pob haid—

(a) dyddiad y symud;

(b) ai i'r daliad ynteu oddi arno y symudwyd yr adar;

(c) nifer yr adar a symudwyd;

(ch) oed yr adar a symudwyd;

(d) yn achos symud haid gyfan, dull adnabod yr haid honno, pan fo mwy nag un haid ar y daliad;

(dd) manylion adnabod yr adeilad neu'r grŵ p o adeiladau y symudwyd yr adar iddo, iddynt, oddi wrtho neu oddi wrthynt;

(e) cyfeiriad y daliad y daethant ohono neu'r lladd-dy neu'r daliad yr anfonwyd hwy iddo.